**Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-08-02(p.1)**

**Dyddiad** 17 Ebrill 2002, 9.00 - 11.25
**Lleoliad** Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Teitl** Adroddiad Misol Terfynol y Gweindog Dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**1 MATERION STRATEGAETH:**

1.1 ‘Gwella Iechyd yng Nghymru’ – Hynt y Cynllun Gweithredu

1.2 Strategaeth Ymchwil a Datblygu Iechyd a Gofal Cymdeithasol

1.3 Datblygiadau pellach Telefeddygaeth

1.4 Cynllun Gweithredu Gofal Sylfaenol

**2 PERFFORMIAD Y GIG:**

2.1 Amseroedd Aros

**3 GWELLA IECHYD A CHWALU ANGHYDRADDOLDEBAU:**

3.1 Gwell Iechyd Gwell Cymru

3.2 Yr Undeb Ewropeaidd – Y Ffindir

3.3 Cynllun Gwobrau Hylendid Bwyd

3.4 Adroddiad y Prif Swyddog Meddygol

3.5 Rhifau’r Beichiogiadau Arddegol

3.6 Ymgyrch Canser y Ceilliau BBC Cymru

3.7 Cynllun Grantiau Gwirfoddol Hybu Iechyd

3.8 Y Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd

3.9 Strategaeth Maethu

3.10 Ymgyrch Hylendid Bwyd

3.11 Menter Gofal Llygaid

**4 RHEOLEIDDIO AC AROLYGU ANSAWDD:**

4.1 Asesiad Effaith ar Iechyd

4.2 Gwenwyn Diaretig mewn Pysgod Cregyn (DSP) o Foryd y Burry

**5 GOFAL CYMDEITHASOL:**

5.1 Trais yn y Cartref

5.2 Grwp Strategaeth Gofal Cymru

5.3 Fforwm Partneriaeth yn y Sector Gofal

**6 Y SECTOR GWIRFODDOL/ GWIRFODDOLI**

6.1 Cynllun y Sector Gwirfoddol

6.2 Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol

6.3 Cod Ymarfer ar Ariannu'r Sector Gwirfoddol

6.4 Yr Ymgyrch Rhoi

6.5 Staff Llywodraeth Cynulliad Cymru'n Gwirfoddoli

**7 SEFYLLFA ARIANNOL:**

7.1 Sefyllfa Ariannol Cyrff y GIG

7.2 Cronfa Risg Cymru – Adolygiad Allanol

7.3 Sefyllfa Ariannol Gyffredinol

**8 RHAGLEN IS-DDEDDFWRIAETH IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

## 1 MATERION STRATEGAETH:

### 1.1 "Gwella Iechyd yng Nghymru" – Hynt y Cynllun Gweithredu

Mae'r rhaglen ar amser ac yn mynd rhagddo'n dda. Mae'r cynnydd yn cynnwys:

- Rhoi cyfarwyddyd i gyfreithwyr ar fwyafrif yr eitemau o is-ddeddfwriaeth; a chytuno ar amserlen i gyflwyno'r is-ddeddfwriaeth i'r Cynulliad;
- Dod i ryw fath o gytundeb ar ymgynghori a rhan undebau'r GIG.

### 1.2 Strategaeth Ymchwil a Datblygu Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Ddiwedd mis Mawrth, cyhoeddwyd fframwaith strategol newydd ar gyfer ymchwil a datblygu gofal cymdeithasol ar gyfer ymgynghori. Ar ôl deufis o ymgynghori, bydd cynllun gweithredu ar gyfer ymchwil a datblygu yn cael ei gyhoeddi. Mae'r fframwaith strategol yn pwysleisio'r angen am ddatblygu rhaglenni ymchwil ym meysydd blaenoriaeth y Cynulliad, er enghraifft, canser, clefyd coronaidd y galon a gofal plant. Hefyd, mae'r fframwaith yn rhoi blaenoriaeth i'r angen am ddatblygu mecanweithiau ar gyfer gwneud gwaith ymchwil i ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a lles poblogaeth Cymru, datblygu ymchwilwyr o ansawdd yn y sectorau allweddol a sefydlu ffyrdd o ymchwilio a fydd yn effeithio ar arferion iechyd a gofal cymdeithasol ac ar ddatblygu polisi.

### 1.3 Datblygiadau pellach Telefeddygaeth

Yn ogystal â'r safleoedd Dangos Telefeddygaeth yng Ngogledd Cymru a Dyfed Powys, rwy'n sefydlu trydydd prosiect arddangos sy'n ymwneud â Gofal Dwys Llosgiadau/Pediatrig.

Bydd y prosiect arddangos hwn yn galluogi'r ysbytai sy'n trin plant â llosgiadau i fanteisio ar arbenigedd a sgiliau yr arbenigwyr ymhlith staff Gofal Dwys Pediatrig yn Ysbyty Athrofaol Cymru, ar y we. Bydd Ysbyty'r Tywysog Siarl hefyd yn cymryd rhan ac yn dangos sut y

gall Ysbytai Cyffredinol Dosbarth (DGH) gysylltu â'r staff Llosgiadau/Plastig yn Nhreforys ac â'r staff Gofal Dwys Pediatrig yn Ysbyty Athrofaol Cymru.

**1.4 Cynllun Gweithredu Gofal Sylfaenol**

Mae'r gwaith i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Gofal Sylfaenol yng Nghymru ar amser, a bydd y cam cyntaf yn cael ei lansio ym mis Gorffennaf 2002. Mae llawer o waith ar y gweill i ddatblygu rôl yr holl broffesiynau sy'n gweithio ym maes gofal sylfaenol:

- Strategaeth optometreg (ar gael i'w drafod) – dan arweiniad Richard Roberts
- Strategaeth fferylliaeth – dan arweiniad Carwen Wynne Howells
- Strategaeth ddeintyddiaeth – (ar gael i'w drafod) dan arweiniad Dr Ivor Chesnutt a Hugh Benett
- Strategaeth Therapïau – dan arweiniad Christine Court
- Nyrsio cymunedol a gofal sylfaenol, bydwreigiaeth ac ymweliadau iechyd – dan arweiniad Mary Cocksley

Bydd y Cynllun Gweithredu yn dwyn yr holl waith ynghyd i greu model ar gyfer darparu gwasanaethau ym maes gofal sylfaenol trwy weithio tîm. Mae datblygu'r gweithlu Gofal Sylfaenol yn un o brif flaenoriaethau'r Cynllun Gweithredu.

Mae'r themâu allweddol eraill yn cynnwys:

- Materion Gwasanaeth – pwysleisio'r rhannau hynny o'r gwasanaeth sydd o bwys penodol ym maes gofal sylfaenol e.e. rheoli salwch cronig ac iechyd meddwl

- Mynediad – gan gynnwys polisi tu allan i oriau gwaith ar gyfer GIG Cymru.

- Adeiladau – sy'n cysylltu â datblygu'r fframwaith ystadau.

- Gwybodaeth a Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg (IM&T) – sy'n cysylltu â'r Cynllun Datblygu IM&T Cenedlaethol.

- Gwella Perfformiad – Dr Mark Vaughan, cadeirydd Grwp Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin sy'n arwain y gwaith i ddatblygu Fframwaith Gwelliant Parhaus mewn gofal sylfaenol.

- Canolfannau Adnoddau Gofal Sylfaenol – Bydd polisi sy'n seiliedig ar arfer da yn cael ei ddatblygu yn dilyn y gweithdy llwyddiannus a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2002 yn Llandrindod

- Datblygu Partneriaeth

- Lleihau Anghydraddoldebau

- Ymchwil a Datblygu

**2. PERFFORMIAD Y GIG:**

**2.1 Amseroedd Aros**

O ganlyniad i absenoldeb anochel Brian Gibbons, gohiriwyd Tasglu Amseroedd Aros y Cynulliad Cenedlaethol tan 19 Ebrill 2002. Bydd y diweddaraf ar y sefyllfa yn Adroddiad Misol mis Mai.

**3. GWELLA IECHYD A CHWALU ANGHYDRADDOLDEBAU:**

**3.1 Gwell Iechyd Gwell Cymru**

Eleni, mae *Gwella Iechyd yng Nghymru* yn cynnwys ymrwymiad i gynhyrchu olynydd i'r strategaeth wreiddiol Gwell Iechyd Gwell Cymru. Mae gwaith ar y gweill i gyflawni hyn. Ni fydd y strategaeth olynol yn strategaeth newydd, ond yn hytrach yn gynllun gweithredu wedi'i gynllunio i ddiogelu a gwella iechyd pobl ac i leihau anghydraddoldebau iechyd trwy weithredu ar draws meysydd polisi Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r gwaith i'w ddatblygu'n berthnasol iawn i weithredu argymhellion strategaeth Adolygiad Dyrannu Adnoddau'r GIG. Bydd yn ein helpu i ddatblygu'n dull integredig ymhellach, lle y mae polisïau a rhaglenni yn y gwahanol feysydd polisi

yn ategu ei gilydd.

### 3.2 Yr Undeb Ewropeaidd – Y Ffindir

Ar ddiwedd mis Mawrth bûm ar ymweliad byr â'r Ffindir i ddysgu mwy am y gwaith a wnaethant i leihau clefyd coronaidd y galon ac i leihau anghydraddoldebau iechyd. Tra'r oeddwn yno, cyfarfum â'm cyfatebydd ac uwch–swyddogion yn y Weinyddiaeth Materion Cymdeithasol ac Iechyd. Gwnes hefyd ymweld ag ysbyty rhanbarthol a chanolfan iechyd a dau o'u sefydliadau iechyd cenedlaethol. Byddaf yn rhoi adborth i'r Pwyllgor maes o law.

### 3.3 Cynllun Gwobrau Hylendid Bwyd

Mae Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru ac awdurdodau lleol Cymru wedi ymuno i ddatblygu a lansio Cynllun Gwobrau Hylendid Bwyd cenedlaethol. Daeth i fodolaeth yng Nghymru ar Ddydd Gwyl Ddewi pan gyflwynwyd y tystysgrifau cyntaf yn Wrecsam a Chaerdydd. Mae 20 o 22 awdurdod lleol Cymru yn cefnogi'r cynllun.

Mae'r gwobrau'n cael eu rhannu i dri chategori – Aur, Arian ac Efydd, ond rhaid cydnabod bod ennill unrhyw gategori yn arwyddocaol am ei fod yn dangos bod y safonau'n uwch na'r safonau gofynnol. Mae Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru a'r awdurdod lleol sy'n cyflwyno'r wobr yn cymeradwyo'r tystysgrifau, sy'n hawdd i'w hadnabod.

Gellir cyflwyno tystysgrifau i bob math o fusnesau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid uchel. Bydd swyddogion gorfodi ledled Cymru yn dilyn dull cyffredin ar gyfer ystyried pa mor addas yw'r lleoliadau, gan gyfeirio'n benodol at arferion trafod bwyd yn ddiogel, hyfforddi'r rheini sy'n trafod bwyd, a systemau rheoli perygl. Asesir y ffactorau cyffredinol yn ystod ymchwiliad hylendid bwyd dirybudd. Bydd y gydnabyddiaeth gyhoeddus o'r safonau o fantais i'r busnesau, a rhagwelir y bydd y cynllun yn dwysáu dros y misoedd nesaf ac y daw'r cyhoedd yn fwyfwy ymwybodol ohonynt.

### 3.4 Adroddiad y Prif Swyddog Meddygol

Cyhoeddwyd *Iechyd yng Nghymru: Adroddiad y Prif Swyddog Meddygol 2001-02* ar 13 Mawrth 2002 a chyflwynodd y Dr Ruth Hall ei hadroddiad i'r Pwyllgor ar y diwrnod hwnnw.

Gohiriwyd y drafodaeth ar Adroddiad Dr Hall tan y cyfarfod hwn.

Fel y dywedodd Dr Hall, mae ei Hadroddiad yn dangos bod gan Gymru dipyn o ffordd i fynd cyn bod iechyd ei phobl yn cyfateb i oreuon Ewrop. Pwysleisiodd Dr Hall bod rhaid i bob rhan o gymdeithas Cymru gydweithio i wella iechyd a lles.

Mae'r Adroddiad yn nodi:

- Bod cyfraddau marwolaethau wedi disgyn yn raddol ers 1990. Mae cyfraddau marwolaethau dynion yn uwch na chyfraddau'r merched.
- 74.8 blynedd yw'r disgwyliad oes i ddynion a 78.5 blynedd i ferched.
- Afiechydon cylchrediad y gwaed (afiechyd coronaidd y galon a strôc, yn bennaf) yw prif achosion marwolaeth, yna canser. Mae afiechydon cylchrediad y gwaed yn gyfrifol am 40% o'r holl farwolaethau, yna canser (24%) ac afiechydon anadlu (18%). Smygu o hyd yw prif achos afiechyd a marwolaethau cynamserol y gellid ei atal yng Nghymru.
- Mae amrywiadau daearyddol sylweddol o ran cyfraddau marwolaethau yng Nghymru. Mae cyfraddau marwolaethau yn yr un rhan o bump o'r wardiau etholiadol mwyaf difreintiedig 25% yn uwch nag yn y wardiau lleiaf difreintiedig.
- Mae cyfraddau rhai heintiau a drosglwyddir trwy ryw, er enghraifft hadlif a chlamydia, yn cynyddu. Mae clefydau heintus yn parhau i fod yn her sylweddol.
- Cynnydd cymysg a geir tuag at gyflawni'r targedau iechyd. Cafwyd cynnydd boddhaol mewn meysydd arwyddocaol, sef clefyd coronaidd y galon, strôc a chanser ceg y groth.

Mae'r Adroddiad yn pwysleisio bod arnom angen dull gweithio eang i wella iechyd yng Nghymru, a fydd yn cynnwys gweithredu ar

benderfynyddion cymdeithasol economaidd ac amgylcheddol iechyd. Mae llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol yn bartneriaid allweddol i'r GIG a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y gwaith hwn.

Mae'r Adroddiad yn rhoi ystyriaeth arbennig i faterion fel clefyd trosglwyddadwy, iechyd plant ac iechyd gwledig.

**3.5 Rhifau'r Beichiogiadau Arddegol**

Mae rhifau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Wladol ar 28 Chwefror 2002 yn dangos bod cyfraddau beichiogiadau arddegol Cymru wedi cwympo am yr ail flwyddyn yn olynol.

Mae ffigurau 2000 yn dangos bod cyfraddau beichiogi merched dan 18 oed yng Nghymru wedi disgyn bron 7% ers 1999, o'i gymharu â chwymp o 2.5% yn ystod yr un cyfnod yn Lloegr.

Ers 1998, mae nifer y beichiogiadau yng Nghymru wedi cwympo bron 14%, sy'n gyfartal â rhyw 400 yn llai o feichiogiadau ymhlith merched dan 18. Mae'r cyfraddau cyffredinol yn parhau i fod yn uwch yng Nghymru nac yn Lloegr, ond mae'r bwlch yn dechrau lleihau.

Lansiwyd dogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Fframwaith strategol ar gyfer hybu iechyd rhywiol yng Nghymru*, ym mis Ionawr 2000 i godi proffil beichiogiadau arddegol. Un o amcanion y Fframwaith Strategol yw lleihau nifer y beichiogiadau arddegol. Dechreuwyd gweithredu'r Strategaeth yn 2000.

**3.6 Ymgyrch Canser y Ceilliau BBC Cymru**

Rhoddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gyngor proffesiynol a chymorth ariannol i ymgyrch Gweithredu Cymdeithasol BBC Cymru i wneud pobl yn fwy ymwybodol o ganser y ceilliau. Parhaodd yr ymgyrch o 15 hyd 22 Mawrth 2002.

Roedd yr ymgyrch yn cynnwys cyfres o raglenni 5-munud a drama 30 munud ar y thema, ac fe'i cynorthwywyd gan wefan arbennig. Cafodd ymgyrch hysbysu drwy gyfrwng posteri ac eitemau hyrwyddo eraill eu cynhyrchu hefyd.

Darparodd Galw Iechyd Cymru wasanaeth cymorth ar y ffôn i gefnogi'r ymgyrch.

Nod pennawd yr ymgyrch 'BLCS – Paid Colli Caill **-** Callia' yw sbarduno trafodaeth am fater nad oes llawer o sôn amdano'n gyhoeddus.

**3.7 Cynllun Grantiau Gwirfoddol Hybu Iechyd**

Cyhoeddais gyllid ar gyfer wyth prosiect newydd sy'n cael eu harwain gan y sector i hybu iechyd a lles grwpiau a chymunedau difreintiedig ar 12 Mawrth 2002.

Dyma nhw:

- Rhaglen Child Safe Wales i helpu lleihau damweiniau a niwed i blant yng nghymunedau 'mawr eu hangen' yng Nghymru;
- Cynllun mentor gwirfoddol y Groes Goch ar gyfer ffoaduriaid sydd newydd gyrraedd;
- Prosiect Church Army i annog pobl ifanc i weithio gyda'i gilydd i chwalu rhwystrau iechyd a'r ffactorau sy'n arwain at hunan-niwed;
- Prosiect Gofal a Thrwsio Cymru i wneud pobl yn fwy ymwybodol o'r cysylltiadau rhwng tai gwael, iechyd gwael a damweiniau yn y cartref;
- BCTV (y 'British Trust for Conservation Volunteers' gynt) Cymru i hyrwyddo'r 'Campfeydd Gwyrdd', i hybu gweithgaredd corfforol mewn cymunedau difreintiedig drwy gymryd rhan mewn prosiectau cadwraeth;
- CRUSE Bereavement Care Cymru i ddarparu cymorth i bobl ar eu profedigaeth, gan helpu i osgoi'r problemau iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â phrofedigaeth;
- Voices from Care, sef prosiect hybu iechyd dan arweiniad cyfoedion ar gyfer pobl ifanc sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal;

a

- Prosiect Plant yng Nghymru i wella iechyd plant sy’n derbyn gofal drwy wella’r ymarfer proffesiynol.

Bydd y prosiectau’n cael eu cynnal o fis Ebrill 2002 tan fis Mawrth 2004.

**3.8 Y Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd**

Mae’r Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd wedi llwyddo i sbarduno gweithredu lleol newydd i fynd i’r afael ag anghydraddoldebau iechyd a’r ffactorau sy’n eu hachosi, gan gynnwys anghyfartaleddau cyfle. Mae 67 prosiect yn cael cefnogaeth.

**3.9 Strategaeth Maethu**

Fel ag a nodais eisoes, rwyf wedi gofyn i Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru i lywio’r gwaith i ddatblygu strategaeth maethu i Gymru. Nod y strategaeth yw gwella deiet ac iechyd pawb yng Nghymru, ond yn arbennig y bobl hynny mewn sectorau o’r gymdeithas sy’n fwy agored i niwed. Disgwyliaf y bydd hyn yn cyfrannu at leihau’r afiechyd yng Nghymru sy’n deillio o ddeiet gwael. Deallaf fod y gwaith i baratoi’r strategaeth yn mynd rhagddo’n dda ac rwy’n disgwyl derbyn yr adroddiad nes ymlaen yn yr haf.

**3.10 Ymgyrch Hylendid Bwyd**

Lansiwyd yr Ymgyrch Hylendid Bwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar 11 Chwefror. Datblygwyd cam cyntaf yr ymgyrch i annog pobl i wella safonau hylendid bwyd mewn mannau paratoi bwyd.

Cafodd yr ymgyrch ei lansio’n llwyddiannus ac mae’n bleser gen i ddweud y rhoddodd y cyfryngau yng Nghymru adroddiadau da amdano.

**3.11 Menter Gofal Llygaid**

Cynlluniwyd y fenter gofal llygaid i helpu pobl yng Nghymru sy’n agored i glefyd llygaid a’r rheini sydd ag angen cymorth arnynt oherwydd bod nam ar eu llygaid. Mae’r fenter yn cynnwys:

- Cynllun archwilio llygaid i ddod o hyd i glefyd llygaid sydd wedi ei anelu at grwpiau sy’n agored i niwed gan gynnwys grwpiau ethnig penodol, Y rheini sydd â golwg mewn un llygad a’r rheini sydd â nam ar eu clyw

- Diogelu golwg pobl sydd â chlefyd siwgr, rhaglen Cymru gyfan i leihau risg

- Darparu cymhorthion i’r rhieni sydd â golwg gwan

Rwyf wedi derbyn cyngor gan grwpiau arbenigol ynghylch archwiliadau llygaid y bydd optometryddion yn eu cynnal fel rhan o’r gwasanaeth sgrinio retinopathi clefyd y siwgr ledled Cymru, ac ar ddarparu cymhorthion golwg gwan trwy’r wlad. Rwyf wedi cymeradwyo argymhellion y grwpiau arbenigol ac wedi rhoi rhaglenni ar waith i hyrwyddo’r gwasanaethau a thargedu’r rheini a fydd yn elwa o’r cynlluniau hyn.

Ar 1 Mai yn Adran Optometreg a Gwyddorau Golygol Prifysgol Caerdydd, byddaf yn lansio cynllun Archwilio Llygaid wedi ei anelu at y grwpiau ‘mewn perygl’. Byd hyn yn cael ei ddilyn gan rhaglen dreigl wedi ei hanelu at y rheini sydd mewn perygl o gael clefyd llygaid, a’u hannog i gael archwiliad.

Yn y misoedd nesaf byddaf yn lansio rhannau eraill o’r Fenter.

Mae’r Fenter Gofal Llygaid yn rhaglen gofal llygaid arloesol yng Nghymru ac rwy’n rhoi cryn bwyslais ar ddarparu gwasanaeth teg ac o ansawdd da ledled y wlad.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn cynnal gweithdai ar y cyd â’r Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol i wella’r gwasanaethau i bawb sy’n dioddef o glawcoma yn y DU. Byddaf yn adrodd yn ôl maes o law.

**4. RHEOLEIDDIO AC AROLYGU ANSAWDD**

**4.1 Asesiad Effaith ar Iechyd**

Soniais beth amser yn ôl i mi drefnu i Gyngor Bwrdeisdref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gael cymorth i gynnal asesiad o'r effaith yr oedd dewis strategaeth adfywio ar gyfer tai lleol ym mhentref Llangeinwyr yn ei gael ar iechyd pobl. Mae'r astudiaeth, sy'n rhan o'n rhaglen datblygu asesiadau effaith ar iechyd, wedi'i chwblhau a byddaf yn trefnu i'r Aelodau gael copi o'r adroddiad.

Mae'r asesiad effaith ar iechyd a gomisiynais ar effaith clwy'r traed a'r genau ar iechyd meddwl pobl yn tynnu at ei derfyn a byddaf yn rhoi manylion ei ganfyddiadau maes o law.

Mae'r gwaith o gynnal arolwg Ewrop gyfan i archwilio'r defnydd y mae llywodraethau'n ei gwneud o asesiadau effaith ar iechyd yn mynd rhagddo. Gofynnwyd i Lywodraeth y Cynulliad fod yn gyfrifol am yr arolwg, sy'n cael ei gynnal mewn cydweithrediad ag Uned Polisi Iechyd y Cyhoedd y Comisiwn Ewropeaidd a Mudiad Iechyd y Byd. Mae'r arolwg yn cwmpasu Aelod-Wladwriaethau'r UE, gwledydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a darpar aelodau'r UE. Bydd y canlyniadau'n llywio ein gwaith o ddatblygu asesiadau effaith ar iechyd tra fod gan y Comisiwn ddiddordeb arbennig yn y canlyniadau gan fod i asesiadau effaith ar iechyd le amlwg yn ei strategaeth iechyd ei hun a'i raglen weithredu.

**4.2 Gwenwyn Diaretig mewn Pysgod Cregin (DSP) o Foryd y Burry**

Canfuwyd Gwenwyn Diaretig mewn Fwyta Pysgod Cregin (DSP) gyntaf yn ystod rhaglen fonitro reolaidd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ym mis Gorffennaf 2001. Mewn ymateb i'r canlyniad positif, cyflwynodd yr awdurdodau gorfodi lleol (Cynghorau Sir Abertawe a Chaerfyrddin) Orchmynion Gwahardd Dros Dro i atal y cocos gwenwynig rhag ymuno â'r gadwyn fwyd.

Cynhelir gweithgaredd samplu unwaith yr wythnos ac oherwydd bod y gwenwyn yn dal i fod yn y cocos, gosodwyd gwaharddiad ar eu casglu, ac eithrio am gyfnod byr ddiwedd 2001. Mae'r Asiantaeth bellach wedi dweud nad yw'n ystyried bod Moryd y Burry yn addas ar gyfer ei rannu'n barthau ac o ganlyniad, bydd y cyfyngiadau yn dal mewn grym hyd nes y ceir canlyniadau negyddol o'r holl fannau samplu yn yr aber am bythefnos gyfan.

Y dull cydnabyddedig o ganfod DSP mewn pysgod cregin yw drwy gynnal profion ar lygod bioassay. Byddai prawf bositif nodweddiadol fel arfer yn lladd y llygoden ar ôl ychydig oriau, ond mae'r Asiantaeth yn ymwybodol fod y canlyniadau positif o DSP o foryd y Burry, a rhannau eraill o'r DU, wedi arwain at farwolaethau mewn llygod mewn llai na 15 munud.

Mae'r Asiantaeth mewn cysylltiad agos â dau awdurdod lleol a chyfarfu swyddogion â phartïon yr effeithir arnynt yn Sir Gaerfyrddin, ac mae hefyd mewn cysylltiad agos â'r Cynulliad ac asiantaethau allanol eraill. Mae gan yr Asiantaeth bortffolio ymchwil bysgod cregin gwerth £3 miliwn ond ni ddisgwylir canlyniadau'r rhain am nifer o flynyddoedd. I'w helpu i ystyried pynciau ymchwil at y dyfodol, mae'r Asiantaeth wedi cytuno ar gynllun ymchwil drafft ychwanegol, a dylai'r canlyniadau fod ar gael erbyn dechrau'r haf.

**5. GOFAL CYMDEITHASOL:**

**5.1 Trais yn y Cartref**

Yn ddiweddar, ysgrifennais at gynrychiolwyr a enwebwyd gan asiantaethau allanol yn eu gwahodd i ddod yn aelodau o Weithgor ar Drais yn y Cartref a Thrais yn erbyn Merched. Bydd staff y Cynulliad o bob is-adran berthnasol yn ogystal ag aelodau allanol ystod o asiantaethau lleol sy'n arbenigo yn y maes hwn yn aelodau o'r Gweithgor hwn, a fydd yn helpu i gydlynu polisïau'r Cynulliad a datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â thrais yn y cartref a thrais yn erbyn merched. Y gobaith yw cynnal cyfarfod cyntaf y Gweithgor hwn ym mis Ebrill.

**5.2 Grp Strategaeth Gofal Cymru**

Gwnes ddatganiad i'r Pwyllgor ar 13 Mawrth ar gylch gorchwyl, aelodau a thasgiau cyntaf Grp Strategaeth Gofal Cymru.

Cynhaliodd y Grwp gyfarfod paratoi ar 21 Mawrth i drafod y cylch gorchwyl a pharatoi rhaglen waith ar gyfer gweddill 2002 ac i benderfynu ar ei ddull o weithredu. Roeddwn yn bresennol yn rhan gyntaf y cyfarfod i danlinellu mor bwysig yn fy marn i yw gwaith y Grp. Dyma'r rhaglen waith ddrafft ar gyfer y 3 chyfarfod nesaf:

- Creu patrwm o sector gofal o'r radd flaenaf i'w wireddu dros y ddegawd nesaf

- Datblygu modelau gofal mwy hyblyg
- Cyfrannu tuag at ddatrys problemau'n ymwneud â'r Gweithlu a hyfforddiant yr ymdrinnir â hwy yn Adroddiad Grp Gorchwyl y Prif Arolygydd
- Llunio canllawiau statudol drafft i awdurdodau lleol sy'n comisiynu gofal
- Datblygu fframwaith i ddefnyddio'r wybodaeth o faes rheoleiddio ac arolygu i wella safon gofal

Rwyf yn hynod falch fod yr Athro Ken Woodhouse, Deon Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru, wedi derbyn fy ngwahoddiad i gadeirio'r Grp hwn.

**5.3 Fforwm Partneriaeth yn y Sector Gofal**

Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 20 Mehefin 2001, cafwyd adroddiad cynnar gan y Grp Gorchwyl a Gorffen ar Faterion Gweithlu Gofal Cymdeithasol.

Sefydlais y Grp Gorchwyl a Gorffen ar Faterion y Gweithlu mewn ymateb i'n hanhawster i recriwtio a chadw gweithwyr yn y sector gofal cymdeithasol. Prif Arolygydd Gofal Cymdeithasol yw Cadeirydd y Grp a daw'r Grp â phobl sydd ag amrywiaeth eang o safbwyntiau ynghyd o bob cwr o'r sector. Yn eu plith mae cyflogwyr cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, Syniad, Unsain, Cyngor Gofal Cymru a darparwyr addysg a hyfforddiant.

Cyhoeddwyd adroddiad y Grp ym mis Medi 2001 a chafodd ei drafod yn ystod y cyfarfod llawn ym mis Tachwedd.

Mae argymhellion y Grp, a gafodd sêl bendith eang, yn cynnig strategaeth cynaliadwy tymor hir i fynd i'r afael â phroblemau a geir yn y sector, ac mae cynllun gweithredu bellach ar waith sy'n cael ei oruchwylio gan y Grp.

Yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 20 Mehefin 2001, gofynnodd Brian Gibbons AC i mi ystyried sefydlu Fforwm Partneriaeth yn y Sector Gofal tebyg i'r un a roddwyd ar waith yn y GIG.

Cylch gorchwyl Fforwm Partneriaeth y GIG yw trafod yr holl agweddau ar bolisi adnoddau dynol a'r dulliau o'u rhoi ar waith drwy weithio mewn partneriaeth i sicrhau bod cyflogwyr yn y GIG yn datblygu a defnyddio arferion da. Mae'r Fforwm yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn a fi sy'n cadeirio dau o'r cyfarfodydd hynny. Ymhlith aelodau'r Fforwm mae cyflogwyr (Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd) a chynrychiolwyr o'r undebau llafur a sefydliadau staff.

Mae'r Fforwm Partneriaeth yn gweithredu mewn cyd-destun sy'n wahanol iawn i'r cyd-destun gofal iechyd. Mae'r sector gofal cymdeithasol yn fawr ac yn amrywiol a cheir mwy na 7,000 o gyflogwyr sy'n amrywio o awdurdodau lleol mawr i fudiadau gwirfoddol bach. Nid oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yr un pwerau i lunio polisi a rhoi arweiniad i'r cyflogwyr hyn â'r rhai sydd ganddo mewn perthynas â'r GIG.

Fodd bynnag, mae sefydlu'r Grp Gorchwyl a Gorffen wedi rhoi cyfle pwysig inni ddechrau canolbwyntio fwyfwy ar gydweithio gyda phartneriaid ar draws y sector. O ganlyniad, bu modd inni ddechrau datblygu'r partneriaethau a'r seilweithiau sydd eu hangen i ddatblygu arferion da mewn ffordd fwy strwythuredig a chynhwysfawr.

Bellach mae angen i ni ganolbwyntio ar ddwyn yn ei blaen agenda y sector gofal cymdeithasol a amlinellwyd gan y Grp Gorchwyl a Gorffen, gan gynnwys datblygu a chryfhau'r partneriaethau newydd hanfodol hyn.

Dylai'r Grp barhau i fod yn gyfrwng ar gyfer y gwaith hwn gan ei fod yn cynrychioli safbwyntiau eang iawn o bob rhan o'r sector.

Fodd bynnag, pan fydd y gwaith yn tynnu at ei derfyn, rwyf wedi gofyn i'r

Grp ystyried sut y gellir dwyn y trefniadau gweithio mewn partneriaeth y maent wedi'u datblygu yn eu blaen yn y tymor hwy. Byddant hefyd yn ystyried sut y gellir integreiddio'r gwaith hwn o fewn gwaith arferol y Cynulliad a'i bartneriaid.

Bydd angen rhoi ystyriaeth i'r rhain yng nghyd-destun rôl Cyngor Gofal Cymru, a sefydlwyd i roi darlun eang o'r sector, ac sy'n chwarae rhan allweddol yn agenda'r gweithlu.

I gloi, ni fyddai'n briodol sefydlu Fforwm Partneriaeth ar gyfer y sector gofal cymdeithasol yn ystod y broses o ddatblygu agenda'r gweithlu. Bydd y Grp Gorchwyl a Gorffen yn dal i ganolbwyntio'i sylw ar weithio mewn partneriaeth. Dylai'r Grp ystyried sut y gellir rheoli'r materion hyn yn y tymor hwy a gwneud argymhellion ar y mater hwn ar ddiwedd ei dymor.

**6. Y SECTOR GWIRFODDOL/GWIRFODDOLI:**

**6.1 Cynllun y Sector Gwirfoddol**

Mae fy swyddogion wedi dechrau llunio'r Ail Adroddiad Bynyddol ar Gynllun y Sector Gwirfoddol. Bydd yn adrodd yn ôl ar hynt yr ymrwymiadau a wnaed yn y Cynllun a byddaf yn ei gyflwyno gerbron y cyfarfod llawn ar 16 Gorffennaf 2002. Rwyf wrthi'n ddyfal yn gofyn am gyfraniadau gan Is-adrannau'r Cynulliad a'r sector gwirfoddol.

**6.2 Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol**

Cafodd y cyfarfod a oedd wedi'i drefnu ar gyfer 22 Mawrth ei ganslo oherwydd bod gan aelodau ymrwymiadau eraill. Yn sgîl hynny, rwyf wedi trefnu cyfuno'r cyfarfod hwn a'r un a oedd i'w gynnal ar 5 Gorffennaf er mwyn cynnal un digwyddiad ar 10 Mai mewn lleoliad i'w drefnu, rhywle yng nghymoedd y De. Byddaf yn adrodd yn ôl ar y cyfarfod maes o law.

**6.3 Cod Ymarfer ar Ariannu'r Sector Gwirfoddol**

Mae hyn yn ofynnol o dan Gynllun y Sector Gwirfoddol. Mae'n cwmpasu canfyddiadau yr Adolygiad Strategol ar Ariannu'r Sector Gwirfoddol ac yn amlinellu egwyddorion a gweithdrefnau'r Cynulliad ar ariannu'r sector. Mae'r ymgynghoriad wedi dod i ben ac mae'r gwaith gorffenedig, sy'n ddogfen fyw, yn y wasg. Mae fy swyddogion hefyd wedi sicrhau ei fod ar gael drwy gyfrwng y Rhyngrwyd a'r Fewnrwyd yn:

http://www.cymru.gov.uk/themesvoluntarysector/index.htm

http://assembly/voluntarysector/codeofpractice/copvsfundhome_e.htm

**6.4 Yr Ymgyrch Rhoi**

Yn ystod cyfarfod o'r Cabinet ar 7 Ionawr 2002, soniais am 'Yr Ymgyrch Rhoi' (wedi'i sefydlu i gynyddu'r swm o arian a roddir i elusennau). Rhoddodd y Cabinet ei gefnogaeth i'r Ymgyrch a gofynnodd hefyd am bapur ar bwnc ariannu'r sector gwirfoddol a helpu'r sector mewn ffyrdd eraill. Mae fy swyddogion yn y Gangen Sector Gwirfoddol wedi cynhyrchu papur ar gyfer cyfarfod y Cabinet ar 15 Ebrill. Maent hefyd wedi cyhoeddi eitem sy'n tynnu sylw at yr ymgyrch ac yn dweud wrth staff sut y gallant gyfrannu'n uniongyrchol o'u cyflogau drwy gyfrwng y fenter "Rhoi o'ch Cyflog" ar dudalen Newyddion Mewnrwyd y Cynulliad.

http://assemblynews/news_details/newsdetails363.shtm

**6.5 Staff Llywodraeth Cynulliad Cymru'n Gwirfoddoli**

**Cardiff Cares**

Un o brosiectau Busnes yn y Gymuned yw Cardiff Cares: (www.btwebservices.co.uk/walescares/cardiff/home.htm ac mae'r Cynulliad yn rhoi cymorth ariannol iddo fel rhan o Fenter Cymunedol Cymru. Cynhaliwyd Diwrnodau Gweithredu ar 19 a 21 Mawrth. Roedd 34 o staff y Cynulliad ymhlith y gwirfoddolwyr.

**7. SEFYLLFA ARIANNOL:**

**7.1 Sefyllfa Ariannol Cyrff y GIG**

Ar hyn o bryd, rhagwelir diffyg yn incwm a gwariant cyrff GIG Cymru ar gyfer y flwyddyn 2001-02 o rhwng £13.2 miliwn a £21.8 miliwn. Mae'r sefyllfa wedi gwaethygu rywfaint ers fy adroddiad diwethaf, yn bennaf oherwydd anawsterau'n ymwneud â gwariant ar bresgripsiynau gofal sylfaenol gan fod yr oedi wrth eu prisio'n ei wneud yn anodd rhagweld beth fydd y gwariant terfynol …

Rwyf wedi cymeradwyo cynllun adfer ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG De Ddwyrain Cymru, sy’n caniatáu i Lywodraeth Cynulliad Cymru roi cymorth strategol gwerth £0.3 miliwn i’r Ymddiriedolaeth yn 2001-02 er mwyn clirio’r fantolen erbyn 31 Mawrth 2004. Yr unig gynllun adfer sy’n dal heb ei roi ar waith yw’r un sy’n ymwneud â chymuned iechyd Gwent, ac mae fy swyddogion yn gweithio gyda Chyngor Gwent i ddod â’r broses hon i ben o fewn yr ychydig wythnosau nesaf.

**7.2 Cronfa Risg Cymru – Adolygiad Allanol**

Rwyf wedi comisiynu adolygiad allanol eang o Gronfa Rig Cymru a weithredir gan Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych ar ran holl gyrff GIG Cymru. Ann Lloyd fydd cadeirydd Grp Llywio’r adolygiad ond bydd cynrychiolwyr o’r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a’r Comisiwn Archwilio hefyd ymhlith aelodau’r Grp a fydd yn cael cymorth arbenigol priodol. Disgwyliaf i’w adroddiad a’i argymhellion ddod i law yn ystod yr haf.

**7.3 Sefyllfa Ariannol Gyffredinol**

Nid yw’r ffigurau terfynol ar gael eto ond yn ôl y ffigurau dros dro, mae’r Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi tanwario £12.7 miliwn (£9.0 miliwn ar iechyd a £3.7 miliwn ar wasanaethau cymdeithasol) o’i gymharu â’r ddarpariaeth y cytunwyd arni yn y cyfarfod llawn. Dim ond 0.4% o gyllideb y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yw hyn ac ar gyllideb o’r maint hwn pan fydd arian sylweddol yn cael ei symud o un adran i’r llall yn ddyddiol, dyma’r sefyllfa ariannol a ragwelwyd yn fy adroddiadau blaenorol.

Yn ogystal, ychwanegwyd £67 miliwn at y cyllidebau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, sy’n caniatáu inni ddefnyddio adnoddau mewn ffordd fwy hyblyg yn uniongyrchol at ddibenion gofal iechyd. Gwariwyd y cyfan o’r swm hwn.

**8. Rhaglen Is-Ddeddfwriath Iechyd a Gwasanaethau Cydeithasol**

Amgaeir amserlen sy’n nodi pryd y caiff yr is-ddeddfwriaeth arfaethedig ei thrafod.

**ATODIAD A**

**Amserlen Fer**

| **Dyddiad** | **Prif Gerrig Milltir** |
|---|---|
| Mis Chwefror-Gorffennaf:<br><br>*Sefydlu* | • Diffinio swyddogaethau a strwythurau<br>• Diffinio anghenion o ran adeiladau, a chytuno ar drywydd<br>• Drafftio’r Byrddau Iechyd Lleol (LHB), Strategaeth Iechyd a Lles a rheoliadau Iechyd Cyhoeddus i’r Pwyllgor Iechyd Gwasanaethau Cymdeithasol (yn ôl yr angen)<br>• Rhoi cyfarwyddiadau i’r is-adran gyfreithiol<br>• Comisiynu trefniadau ar gyfer y penderfyniadau polisi allweddol a wnaethpwyd<br>• Penodi Cadeiryddion a phrif swyddogion i’r LHB, Cyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus Rhanbarthol, cyfarwyddwyr swyddfeydd rhanbarthol a phenodi/trosglwyddo Cadeirydd a phrif swyddog o Gomisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (SHSCW)<br>• Cydsyniad Brenhinol<br>• Cynhyrchu fframwaith ariannol<br>• Cyfnod ymgynghori ar y rheoliadau: mis Mehefin-Awst |
| Mis Awst-Hydref:<br><br>*Dechrau’r gwaith cysgodi* | • Cael, adnewyddu a rhoi dodrefn yn swyddfeydd rhanbarthol adran Cymru yr NHS (NHSWD)<br>• Penodi Cyfarwyddwyr Cyllid i’r LHB a phenodi/trosglwyddo Cyfarwyddwr Cyllid y SHSCW<br>• LHB a’r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol yn dechrau gwaith cysgodi<br>• Parhau i weithredu’r SHSCW a dechrau eu trosglwyddo i’r drefn newydd<br>• Canllawiau ar sefydlu partneriaethau<br>• Cyfnod ymgynghori ar y Canllawiau Iechyd a Lles |

| | |
|---|---|
| Mis Tachwedd-Ionawr: | • Dodrefnu adeiladau LHB a’r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus newydd<br>• Staff swyddfa ranbarthol NHSWD yn symud i mewn ac yn dechrau’r gwaith cysgodi |
| *Trosglwyddo’n llawn*<br>Mis Chwefror-Mawrth 2003:<br><br>*Cyfnod treialu a chomisynu llawn* | • Pasio mesur i drosglwyddo’r dyletswyddau statudol i’r strwythurau newydd<br>• Gosod strwythurau newydd yn eu lle erbyn 1 Ebrill 2003<br>• Dechrau’r fframwaith rheoliadol a’r canllawiau statudol yn barod erbyn 1 Ebrill 2003 |